ADNODD 2. CWESTIYNAU AC ATEBION

Pam y mae angen i mi baratoi fy nghi ar gyfer ymweld ag ysgol?

Gall ysgolion fod yn amgylchedd eithaf bygythiol a brawychus i gi. Mae'r rhan fwyaf o gŵn wedi arfer â chael cysylltiad clos, mewn amgylchedd diogel (cartref teulu), â nifer cymharol fach o bobl, felly bydd golygfeydd, seiniau ac arogleuon ysgol yn anghyfarwydd iawn. Gall hyn achosi pryder mewn llawer o gŵn.

Rydym am sicrhau bod y ci yn teimlo cyn lleied o straen â phosib wrth brofi amgylchedd gwahanol a gwneud popeth y gallwn i gefnogi ei les. Mae'n bwysig hefyd sicrhau diogelwch y plant a'r staff. Mae'n anodd rhagweld sut bydd ci pryderus yn ymddwyn ac mae hynny'n beryglus i'r plant a'r staff. Y ffordd orau o sicrhau diogelwch pawb a lles y ci yw paratoi'r ci yn ofalus iawn i ymweld â'r ysgol.

Ddylwn i ddod â'm ci bach i'r ysgol?

Rydym yn argymell na ddylai cŵn weithio'n rheolaidd mewn ysgol nes eu bod o leiaf 12 mis oed. Nid yw'r rhan fwyaf o gŵn yn ddigon aeddfed i ymdopi ag amgylchedd o'r fath yn rheolaidd.

Os ydych chi'n bwriadu mynd â chi bach i ysgol, canolbwyntiwch ar gefnogi ei gymdeithasoli cyffredinol yn ystod y 12 mis cyntaf. Bydd hyn yn ei helpu i ddod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o amgylcheddau, gan gynnwys bod yng nghwmni plant ac mewn lleoedd swnllyd a phrysur. Cyflwynwch y ci yn raddol i amrywiaeth ehangach o amgylcheddau - fel hynny bydd ysgol yn teimlo'n llai bygythiol.

Cofiwch fynd gan bwyll, gan fod yn ymwybodol o anghenion y ci. Gall profiadau cymdeithasoli fod yn gadarnhaol ac yn negyddol, felly mae'n bwysig iawn cyflwyno pethau newydd yn raddol, a sicrhau bod y profiadau hynny'n bleserus.

ADNODD 2. CWESTIYNAU AC ATEBION

Pa hyfforddiant bydd ei angen ar fy nghi cyn iddo ymweld â'r ysgol?

Cyn i gi ddod i mewn i ysgol, rydym yn argymell bod y ci yn cael ei gymdeithasoli a'i hyfforddi fel ei fod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

·Mae'n gyfforddus yn cerdded o gwmpas ar dennyn byr llac.

·Mae'n dod yn ôl yn ddi-oed pan gaiff ei alw.

·Gall arddangos yr ystum "aros" a pheidio â symud am ddwy funud.

·Gall ddod yn ôl i'w ofalwr yn ddi-oed ar ôl i rywbeth dynnu ei sylw.

·Nid yw'n cyfarth, yn llyfu, yn pawennu pobl, yn rhoi ei geg arnynt neu'n neidio atynt oni bai y gofynnir iddo wneud hynny.

·Mae'n gallu addasu i amgylcheddau newydd a phrociau annisgwyl, megis arogleuon, gwrthrychau a seiniau sydyn.

·Mae'n hyderus yn gymdeithasol, yn mwynhau rhyngweithio â phobl, yn ymlacio ac yn dawel yng nghwmni plant, hyd yn oed pan fo'r amgylchedd yn swnllyd.

·Nid yw'n arddangos unrhyw dystiolaeth o warchod.

·Mae'n gyfforddus gyda rhyngweithio corfforol priodol - e.e. pan fydd rhywun yn brwsio ei ffwr.

·Mae'n gyfforddus yn rhyngweithio â phlant y gall fod ganddynt anableddau corfforol/dysgu ac o gwmpas cymhorthion mecanyddol, e.e. cadeiriau olwyn, lle bo'n berthnasol.

Os yw ci wedi'i hyfforddi ac yn gyfforddus yn gwneud yr uchod, dylai fod yn hapus yn ymweld ag ysgol.

Sut dylwn i hyfforddi fy nghi?

Mae gwahanol ffyrdd o hyfforddi cŵn, ond rydym yn argymell yn gryf mai dim ond hyfforddiant cadarnhaol, ar sail gwobrwyo, ddylai gael ei ddefnyddio i'w baratoi ar gyfer ei rôl a phan fydd yn bresennol yn yr ysgol. Mae hyfforddiant atgyfnerthu cadarnhaol yn gwobrwyo'r ci (trît, canmoliaeth, teganau, unrhyw beth sy'n wobrwyol i'r ci) am ymddwyn yn y ffordd a ddymunir. Mae'r ci'n fwy tebygol o arddangos yr ymddygiad eto os caiff ei wobrwyo, felly mae atgyfnerthiad cadarnhaol yn ffordd bwerus iawn o helpu i lywio ymddygiad eich ci. Dyma'r un ymagwedd a ddefnyddir yn gyffredinol gan ysgolion i annog myfyrwyr. Nid oes pwynt cosbi cŵn; yn y rhan fwyaf o achosion, nid ydynt yn deall beth yw'r rheswm dros y gosb, ac mae hyn yn debygol o gynyddu pryder y ci. Gall hyn arwain at ymddygiad ymosodol.

ADNODD 2. CWESTIYNAU AC ATEBION

Oes cyrsiau hyfforddiant ar gael i mi?

I sicrhau diogelwch a lles y ci, rydym yn argymell bod y ci a'i reolwr yn gweithio yn unol â'r safonau sy'n ofynnol gan y Kennel Club am y Dyfarniad Arian Dinesydd Da, neu safonau cyfwerth. Mae'r safon hon yn cynnig canllaw defnyddiol i asesu a yw'r rheolwr a'r ci yn cydweithio'n effeithiol. Mae hyn yn bwysig iawn i alluogi'r ci i ffynnu yn yr ysgol.

Sut dylwn i baratoi'r ysgol i gael ymweliad gan gi?

Os ydych chi'n bwriadu mynd â chi i ysgol, mae'n bwysig bod cynllun clir ar waith ar gyfer sut bydd y ci yn gweithio yn yr ysgol, a rhaid i'r holl staff a disgyblion fod yn ymwybodol o'r ci a'i rôl a rhaid iddynt ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i sicrhau lles y ci.

Rhaid i chi sicrhau bod gennych bolisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol ar waith. Fel rhan o'ch cynllunio yswiriant, bydd angen i chi feddu ar asesiad risg priodol a dogfen bolisi sydd wedi'u llofnodi gan yr holl staff addysgu i nodi eu bod wedi deall y gweithdrefnau brys a'r protocolau sy'n gysylltiedig â'r ci. Mae hyn yn cynnwys pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb am y ci.

Mae'n bosib y bydd angen triniaeth frys gan filfeddyg ar y ci ar ryw adeg, felly dylai rhif milfeddyg lleol, rhif microsglodyn y ci a rhif cyswllt mewn argyfwng gael eu harddangos yn swyddfa'r ysgol, a dylai fod pecyn cymorth cyntaf cyflawn ar gyfer cŵn ar gael.

ADNODD 2. CWESTIYNAU AC ATEBION

Sut gallaf greu'r amgylchedd iawn i'r ci mewn ysgol?

darparu cawell neu fan tawel a diogel i'r ci fynd iddo mewn argyfwng. Bydd sesiynau'n eithaf blinedig i gŵn a gallant achosi straen iddynt, felly bydd angen amser arnynt i orffwys rhwng sesiynau.

Bydd angen i reolwr y ci fod ar gael i fynd â'r ci i'r toiled yn ôl yr angen. Felly ni ddylai'r un person fod â chyfrifoldeb am y ci a chyfrifoldeb llawn am y plant. Wrth gwrs, rhaid dynodi lle addas i'r ci fynd i'r toiled, yn bell o le mae'r plant yn chwarae ac yn dysgu. Yn yr un modd, rhaid i'r ci fwyta mewn man tawel i ffwrdd o'r staff a'r plant. Yn realistig, nid yw ystafell staff brysur yn lle addas i'r ci fynd amser egwyl ac amser cinio.
Rhaid rhoi cynlluniau ar waith i ymateb i amodau tywydd eithafol gan y bydd y rhain yn anodd i'r ci - ni fydd yn ffynnu mewn gwres neu oerni gormodol.

Dylai fod yn hawdd adnabod y ci fel ci sy'n cyflawni rôl ddiffiniedig yn yr ysgol.

Dylai fod yn hawdd adnabod y ci fel ci sy'n cyflawni rôl ddiffiniedig yn yr ysgol.

Gan ystyried y gall gweithio mewn ysgol achosi straen a bod angen i'r ci weithio mewn ffordd ddwys, ni ddylai sesiynau lle bydd y ci yn cymryd rhan weithredol ynddynt bara'n fwy na 45 munud. Unwaith eto, i ddiogelu lles y ci, ni ddylid cynllunio mwy na thair sesiwn weithredol y dydd lle bydd disgwyl i'r ci ryngweithio â'r plant. Os yw ci'n arddangos arwyddion straen neu flinder, dylid mynd ag ef yn ôl i'w fan tawel nes ei fod wedi gorffwys yn ddigonol. Os yw ci yn arddangos arwyddion straen mewn sawl sesiwn, dylid mynd ag ef o'r ysgol ac ailasesu'r lefel o gymorth sy'n ofynnol i'w alluogi i barhau yn ei rôl fel ci ysgol. Os yw ci yn arddangos arwyddion salwch, ni ddylai fynd i mewn i'r ysgol ac ni ddylai ddychwelyd i'r ysgol nes ei fod yn well. Yn yr un modd, os oes gan unrhyw rai o'r plant glwyfau agored, rhaid gorchuddio'r clwyf os ydynt yn gweithio gyda chi.

Rhaid rhoi rhagofalon synhwyrol ar waith i leihau'r risg y bydd clefyd heintus yn lledaenu e.e. golchi dwylo ar ôl pob sesiwn i reolwr y ci, y plant ac unrhyw aelodau staff eraill sy'n ymwneud â'r ci.

ADNODD 2. CWESTIYNAU AC ATEBION

Sut gallaf gefnogi llesiant a lles ci?

TY man cychwyn amlwg yw sicrhau bod y ci yn ddigon iach i ymgymryd â'r rôl y disgwylir iddo ei chyflawni a rhaid cynnal asesiadau rheolaidd. Rhaid i gi ysgol gael triniaethau i gael gwared â chwain a llyngyr, wedi'u rhagnodi gan filfeddyg. Rhaid i gŵn gael yr holl frechiadau angenrheidiol, yn unol â chanllawiau cyfredol WSAVA a/neu brofion Titer.

Bydd angen i chi sicrhau bod dŵr ar gael drwy'r amser i'r ci, a rhaid ei gadw'n rhywle nad yw'n achosi perygl.

Pa sgiliau a gwybodaeth y mae angen i reolwyr cŵn feddu arnynt?

TDylai'r person sy'n gyfrifol am y ci ysgol fod â hyfforddiant a phrofiad mewn ymdrin â chŵn a dylai allu dehongli signalau gan y ci ac ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys gallu adnabod arwyddion cynnil straen a gwybod sut i ymateb iddynt.

Mae'n bwysig bod rheolwr y ci yn eirioli dros y ci er mwyn sicrhau y glynir wrth arferion gweithio sydd er buddion gorau'r ci.

Yn ddelfrydol, dylai ddeall egwyddorion ymyriadau ac addysg â chymorth anifeiliaid yng nghyd-destun ysgol a rhaid iddo feddu ar wybodaeth dda am anghenion y plant yn yr ysgol.